NEWYDDION o'r ysgolion

YSGOL PENRHYN-COCH

Yn gyntaf oll llongyfarchion i'r *TINCER* am rifyn mor ddiddorol i gychwyn ei yrfa.

'Rydym ninnau'n yr ysgol wedi ail gydio'n y gwaith ar ôl Gwyliau'r Haf ac ar hyn o bryd yn prysur baratoi ar gyfer ein Cyfarfod Diolchgarwch a gynhelir prynhawn Iau 20ed o fis Hydref.

Yr wythnos ddiwethaf cawsom gyfarfod i drefnu gweithgareddau'r Urdd. Bydd yr Adran i blant rhwng 8 ac 11 oed yn cyfarfod yn syth ar ôl yr ysgol ar brynhawn Llun ac i rai o dan 8 wedi'r ysgol ar brynhawn Iau. Ysgrifennydd y Pwyllgor yw Mrs Morfudd Griffiths a'r Trysorydd yw Mrs Eirlys Evans.

Dydd Sadwrn 24 Medi cawsom ein gêm pêl-droed gyntaf am y tymor yn erbyn yr Hurricanes o Fachynlleth. Hyfryd oedd cael gadael y maes yn goncwerwyr o un gôl i ddim gyda Meurig Evans yn sicrhau ein buddugoliaeth.

Y mae cystadleuthau Traws Gwlad y mis hwn ym Mhenparcau a phob cyfle a gawn yn awr byddwn yn ymarfer ar gyfer hyn.